**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
Lynne.Neagle@Senedd.wales

18 Awst 2020

Annwyl Lynne Neagle AS

Diolch ichi am eich gwahoddiad i gymryd rhan yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. A hynny er mwyn trafod y trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith eleni mewn perthynas â dyfarnu graddau i ddysgwyr yn sgil canslo cyfres arholiadau'r haf.

Rwy'n falch eich bod chi'n cydnabod y camau digynsail y bu'n rhaid imi eu cymryd o ran canslo arholiadau'r haf a gwneud trefniadau i ddyfarnu graddau. Rwy'n gwerthfawrogi bod y trefniadau hynny wedi bod yn destun pryder. Mae hefyd yn ddealladwy fod dysgwyr yn debygol o fod yn pryderu yn sgil y datblygiadau diweddar sy'n funud olaf mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig (DU), a sylw'r wasg sy'n gysylltiedig â hynny. Rwy'n croesawu'r cyfle i fynd i gyfarfod o'r Pwyllgor i helpu i roi sicrwydd ac eglurder ynghylch y camau yr ydym wedi'u cymryd ac yn eu cymryd yng Nghymru i ddyfarnu graddau amcanol sy'n gadarn, yn gredadwy ac yn deg.

Fodd bynnag, rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol fod y cyfarfod hwnnw o'r Pwyllgor wedi'i drefnu i'w gynnal ddeuddydd cyn diwrnod canlyniadau arholiadau TGAU. Felly, er y bydd modd imi ateb cwestiynau am y ffordd yr aethpwyd ati i ddyfarnu graddau TGAU, ni allaf roi unrhyw fanylion ichi am y canlyniadau eu hunain. Mae Cymwysterau Cymru a CBAC yn yr un sefyllfa. O ystyried hynny, rwy'n fodlon dod i gyfarfod arall o'r Pwyllgor hefyd am y mater hwn ar ôl dydd Iau, neu ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig a allai fod o gymorth i unrhyw archwiliad.

Yn gywir

**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.